DRAFT

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6:30 y.h. NOS IAU, CHWEFROR 7FED 2019 YN SIAMBR Y CYNGOR, STRYD PENLAN, PWLLHELI.

Cof; - 0102/19 - Presennol.

Yn y Gadair Maer, Cyng. Eric W. Roberts, Cynghorwyr , A. Williams, E. Gruffydd, M. Sol Owen, Parch Ioan Gruffydd, Dr Iwan Edgar, M. Parry, D. O. Jones, Dylan Bullard, H. Underwood, Elin Hywel, Mici Plwm.

Clerc E. Price.
……..

Cof; - 0202/19 - Ymddiheuriadau.

Cynghorwyr; E. J. Hughes, Henry Rees Williams.

……
Cof; - 0302/19 - Datgan Diddordeb.

Cyng. H. Underwood (rhif 15).

……
Cof; - 0402/19 - Gair gan y Maer.

Adroddiad y Maer yn y llyfr cofnodion.

……..

Cof; - 0502/19 - Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

…….

Cof;- 0802/19 - Materion cyfansoddiadol a staff.

Dim materion yw drafod

……

Cof; - 0902/19 - Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Ionawr, 2019 fel rhai cywir a llofnodwyd hwy yn unol ar gyfraith.

……..

Cof; - 1002/19 - Adroddiad clerc

Derbyniwyd yr adroddiad . Adroddiad yn y llyfr cofnodion.

Penderfynu cael Is- bwyllgor arianol a busnes i drafod dogfen tal annibynol i Gymru

……..

Cof;- 1102/19 - Delwedd (gwefan y Cyngor) wedi gyrru contract GDPR yw arwyddo.

Penderfynu gofyn am gontract Cymraeg yw arwyddo.

……..

Cof;- 1202/19 - Awdit o lwybrau cyhoeddus Pwllheli.

Cytuno i`r Cyng. Michael Sol Owen gwneud awdit o`r llwybrau.

……..

Cof;- 1302/19 - Cloc y dref- contract 3 blwyddyn wedi darfod. Cynnig contract 3 blwyddyn arall gan Smith of Derby.

Penderfynu cytuno ar dderbyn contract 3 blwyddyn

……

Cof; - 1402/19 – Cynllunio

Hysbyseb o gais deddf Trwydded 2013, 2 Mitre Terrace. (" grill a Pizza house").

Penderfynu caniatau

……..

Cof;-1502/19 - Cyng. Hefin Underwood am gyflwyno syniadau gwahanol ar dybiau blodau i`r dref.

Penderfynu derbyn ei syniad ac archebu chwe thwb blodau ganddo.
Penderfynu yw ariannu o arian wrth gefn y Cyngor.
.....

Cof;-1602/19 - Toiledau'r dref. Cyng. Alan Williams.

Cyng. Hefin Underwood yn cytuno i gael atebion gan y Cyngor Sir ar beth sydd yn digwydd i`r arian sydd yn cael ei gasglu parthed toiled Maes Pwllheli.
.....

Cof;- 1702/19. Cyng. M. Parry

1. Gwirfoddoli yn y dref- Y Cyngor yn ddiolchgar o`r gwaith caled sydd yn cael ei wneud er lles y dref gan wirfoddolwyr, ond hefyd o`r farn bod angen hybu eraill i ymuno. Penderfynu trafod yn y cyfarfod nesaf.
2. Y gwasanaeth ambiwlans- Y Cyngor yn cytuno bod gwaith arbennig yn cael ei chyflenwi gan y gweithwyr ond yn pryderu am yr amser mae ambiwlans yn ei gymryd i gyrraedd galwadau brys. Penderfynu llythyru`r gwasanaeth i ddatgan pryder y Cyngor ac i ofyn am wybodaeth

o'r amser mae'r gwasanaeth yn ei gymryd i ymateb i alwadau brys. Oes tystiolaeth bod canlyniadau difrifol wedi digwydd oherwydd diffyg ymateb ar frys?.

3. Betsi Cadwaladr- statws y Bwrdd Iechyd. Penderfynu llythyru i ofyn "pa bryd mae`r bwrdd yn rhagweld byddant yn colli statws mesurau arbenig?". Hefyd Cyng. Mici Plwm sydd yn aelod o`r pwyllgor Iechyd am godi`r mater.

.....

Cof;- 1802/19 - Lleoliad Penddelw Cynan- disgwyl ymateb ysgrifenedig.

.

.....

Cof;- 1902/19 - Enwau strydoedd y dref. Cyng. Dr Iwan Edgar.

Y Cyngor yn gofyn i`r Cyng. Dr Iwan Edgar am wybodaeth a lluniau o strydoedd sydd angen enwau priodol.

Ar ol cael y wybodaeth uchod, penderfynu gyrru llythyr i`r swyddog perthnasol i ofyn iddynt gadw yw addewid o osod arwyddion Cymraeg ar strydoedd y dref.

.....

Cof;2002/19 - Cyng. D. Bullard- arhosfa bysiau ASDA.

Y Cyngor yn cytuno bod yr arosfa bws yn creu pryder i rai o drigolion y stryd. Mae`r mater wedi cael sylw blaenorol ond doedd dim ateb na chytundeb ar gael.

Penderfynu gyrru llythyr i ASDA i ofyn iddynt ariannu lloches i`r rhai sydd yn disgwyl am fws ar y gongl wrth fynd i mewn i ASDA a chadw`r arhosfa yn yr un lle. Y gobaith, os bydd ASDA yn cytuno, yw bydd y rhai sydd yn disgwyl am fws defnyddio`r lloches yn lle disgwyl o flaen tai`r stryd.

.....

Cof;- 2102/19 - Archebu fflagiau Gŵyl Ddewi.

Cytuno i archebu`r fflagiau a chytuno i archebu rhai polion newydd.

.....

Cof; - 2202/19 - Cais am gymorth ariannol gan Glwb peldroed merched Pwllheli.

Penderfynu rhoi cyfraniad o £300 (arian 137).

……

Cof 2302/19.

Llythyr ar y bwrdd parthed banciau poteli sydd wedi ei lleoli yn faes parcio Cei Gogledd yn cael eu diddymu o fewn y mis nesaf, ac yn cael ei chau yn gyfan gwbl yn dilyn problemau tipio ar y slei yn y lleoliad yn ddiweddar.

Penderfynu derbyn yr adroddiad.

.....

Cof;-2402/18
Derbyniadau – cytunwyd.

250	Rhent Adams	CR
250	Rhent Adams	CR

Cof;-2502/18
Taliadau – cytunwyd.

354.96	Anghenion swyddfa cyf.	203090
200	Theatr Bara Caws.	203091
337.97	HMRC.	203094
894.29	Costau gweinyddol rhedeg y Siambr.	sieciau

Daeth y Cyngor i ben am 8 30yh.

Cynhelir Cyfarfod Nesaf y Cyngor Tref Nos Iau 7 fed o Mawrth 2019.

Bydd rhaglen y cyfarfod yma yn cau 28 Chwefror 2019.